

# Castell Caerdydd

## Gweithdy Chwedlau Cymreig

### Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg.

### Disgrifiad

Yn dilyn taith o'r Castell, bydd disgyblion yn clywed un o'r straeon ar ddechrau eu gweithdy ac yna'n actio'r stori i gerddoriaeth gan ddefnyddio symudiadau, iaith a meim.

Cynhelir y gweithdy gan hwylusydd proffesiynol sydd wedi sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

### Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith dywys o'r Tŷ yn mynd â'r plant i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych. Mae'r Neuadd Wledda yn cynnwys cyfeiriadau at stori Gelert a'r Mabinogi yng nghanol y wal.

### Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd y daith dywys yn cymryd tua 50 munud ond gall y rhai â phlant ifanc iawn ddewis opsiwn byrrach (tua 30 munud) sy'n hepgor y rhan â'r grisiau troellog yn un o'r tyrrau.

### Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio meim, mynegiant wynebol a symudiadau i bortreadau gwahanol gymeriadau ac emosiynau
- ◆ Dysgu am amlinelliad point a chymeriadau rhai o arwyr enwog Cymru
- ◆ Dysgu am effaith llinell stori ar weithredoedd ac emosiynau cymeriadau
- ◆ Dysgu i berfformio dehongliad o'r stori i gerddoriaeth gan ddefnyddio symudiad, meim a deialog
- ◆ Dysgu am effaith llinell emosiynau ar weithredoedd cymeriadau
- ◆ Dysgu sut i gymryd tro a gweithio mewn tîm

### Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Sylfaenol/Blynyddoedd Cynnar**
  - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
  - Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
  - Datblygiad Creadigol
  - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
  - Datblygiad Corfforol
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
  - Addysg Gorfforol – Gweithgareddau Creadigol
  - Cymraeg/Saesneg - Llafaredd
  - Sgiliau – Y Cwricwlwm Cymreig, Cyfathrebu, Meddwl, Addysg Personol a Chymdeithasol
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 a 2 (Lloegr)**
  - Addysg Gorfforol – Gweithgareddau Dawns
  - Datblygiad Creadigol
  - Saesneg - En1 – Siarad a Gwrando

Gall yr ymweliadau gwmpasu'r rhan fwyaf o gyfnodau o hanes a astudir yn CA2 (Rhufeiniaid, Normaniaid/Oes y Tywysogion, Oes Fictoria a'r 1940au).

### Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell

Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.